



# Polisi Gorfodaeth Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd

Cyngor Sir y Fflint | Gorffennaf 2010

*Medrwyh gael y Polisi hwn mewn amrywiaeth o fformatiau a chyfryngau o wneud cais.*

## Mynegai

---

<b>1.0   Cyflwyniad</b> .....	<b>1</b>
<b>2.0   Ein Hagwedd - sut y byddwn yn mynd ati yn ymarferol?</b> .....	<b>2</b>
<b>3.0   Rheoleiddio Effeithiol i'r 21ain Ganrif</b> .....	<b>3</b>
3.1   Cefnogi Ffyniant Economaidd .....	3
3.2   Defnyddio Dulliau Asesu Risg Effeithiol .....	4
3.3   Canolbwyntio ar Atal .....	4
3.4   Targedu Ymweliadau Archwilio .....	5
3.5   Adolygu Prosesau Gofyn am Wybodaeth.....	6
<b>4.0   Beth sy'n digwydd pan nad oes cydymffurfio ar waethaf atal a chynghori?</b> .....	<b>8</b>
4.1   Penderfyniad i gymryd camau gorfodi ffurfiol .....	8
4.2   Lefelau Camau Gorfodi .....	8
4.3   Rhybuddion (Cyfreithiol) Statudol .....	9
4.4   Ymrwymadau Ysgrifenedig a Gorchmynion Gorfodi.....	9
4.5   Hysbysiadau Cosb Benodol .....	9
4.6   Rhybuddion Syml .....	10
4.7   Erlyn .....	10
4.8   Enillion Trosedd.....	12
4.9   Casglu Tystiolaeth.....	12
4.10   Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.....	12
<b>5.0   Egwyddorion Cyffredinol Ymddygiad Swyddogion</b> .....	<b>13</b>
<b>6.0   Bod ag Atebolrwydd Clir am ein Penderfyniadau a'n Gweithredoedd</b> .....	<b>14</b>
<b>7.0   Trefn Gwynion</b> .....	<b>15</b>
<b>8.0   Ymateb a Sylwadau</b> .....	<b>15</b>

## 1.0 | Cyflwyniad

---

Mae rheoleiddio wedi ei dargedu ac sy'n seiliedig ar wybodaeth yn hanfodol o ran hybu tegwch ac arbed rhag niwed. Mae Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd yn llawn gydnabod fod angen i reoleiddio effeithiol fod yn gymesur ac yn ddigon hyblyg i gefnogi ac annog ffyniant economaidd. Mae ar fusnesau da angen rheoleiddwyr da ac y mae rheoleiddwyr da yn gweithio yn adeiladol gyda busnesau i sicrhau cystadleuaeth deg ac i gefnogi economïau lleol ffyniannus.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hybu agweddau effeithiol ac effeithlon at archwiliadau rheoleiddio a gorfodaeth sydd yn hybu deilliannau rheoleiddio allweddol heb osod baich diangen.

### **Deilliannau Rheoleiddio Allweddol:**

- ▶ llai o anghydraddoldeb iechyd;
- ▶ llai o wenwyn bwyd neu afiechyd anifeiliaid;
- ▶ llai o ddamweiniau, anafiadau ac afiechyd a achosir gan waith;
- ▶ llai o lygredd a throseddau amgylcheddol eraill
- ▶ cymunedau diogelach a chryfach
- ▶ gwell safonau cydymffurfio gan fusnesau.

### **Byddwn felly yn cymryd agwedd gadarnhaol, weithredol a chytbwys i sicrhau cydymffurfio. Gwneir hyn trwy gyfuniad o'r canlynol:**

- ▶ cyngor, gwybodaeth, help a chefnogaeth i fusnesau sydd yn adlewyrchu anghenion a disgwyliadau busnesau unigol; ac
- ▶ ymyriadau wedi eu targedu, seiliedig ar wybodaeth ac sy'n gymesur lle gwelwyd bod rheoliadau wedi eu torri.

Yn y Polisi hwn, rydym yn amlinellu sut y bwriadwn weithio yn ôl yr egwyddorion hyn. Byddwn yn disgrifio ein hagwedd gyffredinol a'r amgylchiadau lle'r ystyrir sancsiynau rheoleiddio difrifol megis erlyn, fel bod trigolion a dinasyddion lleol yn llawn ddeall ac yn cefnogi ein hagwedd at reoleiddio effeithiol yn Sir y Fflint.

Yr ydym wedi datblygu polisiau effeithiol i ymdrin yn gymesur â gweithgaredd troseddol fyddai'n cael effaith niweidiol ar fusnesau cyfreithlon ac yn cyrraedd y deilliannau rheoleiddio a ddymunir. Fodd bynnag, mae disgwyliad hefyd i fusnesau cyfreithlon weithio gyda rheoleiddwyr i wella safonau masnachu a thrwy hynny gefnogi cyrraedd y deilliannau rheoleiddio.

Mae'r polisi hwn yn canoli yn bennaf ar reoleiddio'r gymuned fusnes, ond mae nifer o swyddogaethau rheoleiddio yn golygu gorfodaeth yn erbyn unigolion, e.e., baeddu gan gŵn a gollwng sbwriel. Lle'r ystyrir camau gorfodi yn erbyn unigolion, byddwn yn ystyried yr egwyddorion a'r safonau perthnasol a amlinellir yn y polisi hwn.

## 2.0 | Ein Hagwedd - sut y byddwn yn mynd ati yn ymarferol?

---

**Yr ydym wedi mabwysiadu egwyddorion gorfodaeth effeithiol sydd wedi eu derbyn yn gyffredinol. Yn eu mysgr mae:**

- ▶ Cyhoeddi ein Safonau Gwasanaeth: byddwn yn cyhoeddi safonau gwasanaeth clir a phendant
- ▶ Bod yn Agored: byddwn yn rhoi gwybodaeth mewn iaith glir a syml ac yn esbonio sut yr ydym yn bwriadu cefnogi busnesau cyfreithlon a gwarchod defnyddwyr a dinasyddion.
- ▶ Bod o Gymorth: yn ein barn ni, mae atal yn well na cheisio gwella wedi i rywbeth ddigwydd a byddwn felly yn ymchwilio i ffyrdd o annog busnesau i geisio help a chynghor fel y gall busnesau 'gael pethau'n iawn y tro cyntaf'.
- ▶ Ymateb yn gadarnhaol i gwynion am ein gwasanaeth neu ein hagwedd: yn ddelfrydol, os bydd yr agwedd yn iawn, ni ddylem gael llawer o gwynion, ond mae gennym lwybr clir i adrodd am gwynion a, gobeithio, eu datrys yn foddhaol.
- ▶ Cymryd camau cymesur a synhwyrol lle gwelir bod deddfwriaeth wedi ei thorri: byddwn yn canfod y ffeithiau a'r amgylchiadau a arweiniodd at dorri'r rheolau, yn ystyried y camau a gymerwyd i leihau effaith y torri, a byddwn yn asesu'r hyn y bwriada'r busnes wneud i osgoi torri deddfwriaeth yn y dyfodol fel rhan o'n dull o ystyried sancsiynau posibl.
- ▶ Bod yn deg a chyson: byddwn yn gofalu bod ein polisiâu a'n harferion ni yn cael eu deall yn llawn ac yn cael eu cymhwyso gan ein swyddogion ar lawr gwlad. Byddwn yn buddsoddi yn eu hyfforddi a'u datblygu, ac er ein bod yn disgwyl i'n pobl arfer eu doethineb a gweithio i lefelau uchel o safonau proffesiynol, yr ydym wedi datblygu camau diogelu i sicrhau bod ein polisiâu a'n harferion yn cael eu cymhwyso'n deg a chyson. Mae'r agwedd hon yn cynnwys cysylltu effeithiol gyda chyrff rheoleiddio a gorfodi eraill, a chadw at y canllawiau cenedlaethol diweddaraf a'r arferion gorau.

## 3.0 | Rheoleiddio Effeithiol i'r 21ain Ganrif

---

### 3.1 | Cefnogi Ffyniant Economaidd

Mae rheoleiddio a gorfodaeth effeithiol yn hanfodol i gefnogi ffyniant economaidd. Mae rheoleiddwyr da yn fwy ymwybodol o'r hyn sy'n effeithio ar ffyniant economaidd a'r effaith maent yn gael ar fusnesau unigol a'r economi lleol os nad yw'r cydbwysedd rhwng rheoleiddio a gorfodaeth yn iawn. Felly, mae'r polisi gorfodaeth hwn a'r ffordd mae'n cael ei weithredu yn ystyried yn llawn yr angen i gefnogi busnesau cyfreithlon trwy raglen o gyngor a gwybodaeth effeithiol i ddechrau i 'helpu busnesau i gael pethau'n iawn y tro cyntaf'. Mae hyn yn llesol i reoleiddwyr a busnesau. Mewn gwirionedd, ein hagwedd yw 'gwell clwt na thwll:

#### **Dyma fydd yn rhan o'r ffordd y byddwn yn mynd ati:**

- ▶ Gweithio i ddatblygu perthynas adeiladol o ymddiried mewn busnesau lleol, yn enwedig busnesau newydd, fel eu bod yn hyderus am geisio help os aiff pethau o chwith, yn hytrach na cheisio cuddio pethau a gwneud y sefyllfa'n waeth
- ▶ Deall ac ystyried maint, cymhlethdod a chwmpas busnesau i roi lefel briodol a chymesur o gyngor a chefnogaeth, yn enwedig o gadw mewn cof effaith rheoleiddio ar fusnesau bychain a chanolig
- ▶ Ymgynghori gyda busnesau lleol, adnabod eu hanghenion a'u disgwyliadau a rhoi lefel briodol o gyngor a chefnogaeth i ateb y disgwyliadau hynny neu hyd yn oed wneud yn well
- ▶ Darparu gwasanaeth cyngor ymatebol ac effeithiol i fusnesau fel y gallant gael pobl o'r radd flaenaf i'w helpu i gydymffurfio a'r gyfraith trwy ddarparu cyngor cal a phragmataidd
- ▶ Defnyddio ymyriadau gyda sail o wybodaeth ac sydd wedi eu targedu, seiliedig ar asesiad gwrthrychol o risg fel bod adnoddau yn cael eu cyfeirio'n gywir at y manau lle mae'r risg uchaf
- ▶ Datblygu system effeithiol o ddatrys anghydfod er mwyn cyrraedd y deilliannau rheoleiddio iawn heb roi baich diangen ar fusnesau
- ▶ Adolygu ein polisiau, strategaethau a'n harferion yn rheolaidd a systemaidd er mwyn gwneud yn sicr eu bod yn aros yn berthnasol ac effeithiol o ran cyrraedd y deilliannau rheoleiddio heb roi baich diangen ar fusnesau

## 3.2 | Defnyddio Dulliau Asesu Risg Effeithiol

Bydd asesu risg effeithiol yn ganllaw i'n holl weithgaredd rheoleiddio a gorfodi. Bydd yn sail i'r modd y byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i ganolbwyntio ar feysydd risg uchel, a'u gwneud mor effeithiol ag sydd modd i gefnogi busnesau a gwarchod defnyddwyr, a thrwy hynny arwain at well deilliannau rheoleiddio.

### Byddwn yn asesu risg er mwyn:

- ▶ Gweld pa mor debygol yw risg sylweddol i iechyd, cyfoeth neu les pobl a chymunedau, yr amgylchedd a masnach deg a ffyniant economaidd; a
- ▶ Gofalu bod ein gweithredoedd a'n hymyriadau yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o'r dystiolaeth orau sydd ar gael fel bod adnoddau yn cael eu targedu'n effeithiol at leihau'r risg i bobl leol, cymunedau a busnesau cyfreithlon ac yn gwneud hynny yn llwyddiannus.

### Mae ein fframwaith asesu risg yn gynhwysfawr ac yn cynnwys asesu effeithiau cyfun y canlynol:

- ▶ Effaith posibl peidio â chydymffurfio ar ddeilliannau rheoleiddio; a
- ▶ Pha mor debygol yw i ddiffyg cydymffurfio ddigwydd.

Bydd ein hagwedd seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth yn sail i ddatblygu rhaglen o archwiliadau wedi eu cynllunio, cadw cydbwysedd rhwng gweithgaredd ataliol a chydymffurfio, a defnyddio technegau gorfodi a'r sancsiynau priodol yn unol â pholisïau a ddiffiniwyd yn glir.

### Wrth werthuso pa mor debygol yw peidio â chydymffurfio, byddwn yn ystyried y ffactorau a ganlyn:

- ▶ Iefelau blaenorol o gydymffurfio gan fusnes a nodi risgiau posibl at y dyfodol;
- ▶ bodolaeth systemau effeithiol o reoli risg;
- ▶ tystiolaeth o ardystiadau trydydd parti rheolaidd ac effeithiol; a
- ▶ medrusrwydd rheolwyr a pharodrwydd i gydymffurfio.

## 3.3 | Canolbwyntio ar Atal

Bydd un maes pwysig o'n hagwedd at atal yn golygu datblygu perthynas waith gadarnhaol ac effeithiol gyda busnesau trwy rwydweithiau a chysylltiadau sy'n bodoli eisoes a thrwy greu swyddogaeth cefnogi busnes, a dyhead i greu un pwynt cyswllt i bob ymholiad am reoleiddio. Yr ydym yn sylweddoli y gall busnesau bychain yn arbennig gael eu llethu gan raddfa a chymhlethdod deddfwriaeth sy'n ymdrin â'u gweithgareddau busnes. Byddwn ni yn darparu mynediad rhwydd at gyngor, yn rhoi gwybodaeth syml, glir a chryno, a chyngor dilynol lle bo angen hynny. Lle bo canllawiau cenedlaethol ar gael, byddwn yn eu hybu er mwyn cysondeb, ond lle nad oes canllawiau cenedlaethol byddwn yn ceisio ymgynghori gyda busnesau fel bod canllawiau lleol yn ateb eu hanghenion penodol, lle bo hyn yn synhwyrol ac yn ymarferol.

### **Yn ein holl ymwneud a busnesau ein nod fydd:**

- ▶ eu hysbysu am unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n debyg o effeithio ar eu busnes cyn gynted ag y dewn i wybod amdano, a byddwn yn cymhwyso'r un egwyddor o ran newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol;
- ▶ lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau penodol i'r sector;
- ▶ darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau cyffredinol i'w gwneud yn haws i fusnesau ddeall a gweithredu yr hyn sydd angen ei wneud;
- ▶ gofalu bod y wybodaeth, cyngor a chanllawiau a ddarparwn yn syml, clir a chryno ac ar gael mewn nifer o fformatiau a chyfryngau; ac
- ▶ yn rheolaidd ac yn systemaidd, asesu ansawdd a hygyrchedd ein gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i wneud yn siŵr ei fod yn dal yn gywir, dibynadwy ac addas at y diben trwy asesu lefelau boddhad gyda busnesau.

Byddwn yn wastad yn ceisio gofalu, yn ein holl ymwneud a busnesau, ein bod yn gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol penodol a chanllawiau/arferion gorau sydd a'r nod o roi gwelliannau mwy na'r isafswm safonau. Fodd bynnag, byddwn yn mynd ati i annog busnesau i anelu at y safonau uchaf ac yn helpu i gefnogi'r rhai sydd am wneud hyn.

Fel rheol, rhoddir gwasanaethau cyngor am ddim. Lle bo cost, byddwn yn gwneud hyn yn glir cyn darparu unrhyw rai o'r gwasanaethau hyn i'r gymuned fusnes. Er enghraifft, mae lle i godi tal mewn datblygu perthynas Prif Awdurdod.

## **3.4 | Targedu Ymweliadau Archwilio**

Dim archwiliad heb reswm dilys - Byddwn yn ceisio peidio cynnal unrhyw ymweliadau archwilio ag eiddo busnes onid oes rheswm penodol a chyfiawnhad dros wneud hynny. Bydd unrhyw ymweliadau archwilio a raglennir yn seiliedig ar ddefnyddio fframwaith asesu risg gadarn a chllir. Bydd rhannu gwybodaeth a datblygu sianeli cyfathrebu effeithiol i roi tystiolaeth am risg yn elfen allweddol o'n hagwedd at archwilio wedi ei dargedu. Defnyddir dadansoddiadau o wybodaeth a chymhwyso fframwaith asesu risg i gyfeirio adnoddau a chynnal ymweliadau archwilio uniongyrchol lle byddai methu a chydymffurfio yn golygu perygl difrifol i'r gymuned a bod y busnes yn debygol o barhau i redeg yn anghyfreithlon.

Ymateb amserol ac effeithiol - Ar derfyn unrhyw ymweliad archwilio, bydd ein swyddogion yn rhoi adroddiad llafar am eu canfyddiadau er mwyn dod i gytundeb am y camau unioni arfaethedig. Bydd hyn yn cynnwys amlinelliad o arferion da yn ogystal â manau i wella. Bydd unrhyw gyngor, canllawiau neu gyfarwyddiadau penodol fel rheol yn cael eu cadarnhau yn ysgrifenedig.

Ymweliadau Ymchwilio ar y Cyd - Byddwn yn ceisio cyd-gordio ein rhaglenni archwilio fel nad yw busnesau yn gorfod dioddef archwiliadau lluosog, lle bo hyn yn synhwyrol ac yn ymarferol. Byddwn yn datblygu ein rhaglenni archwilio i wneud yn siŵr ein bod yn cael y cydbwysedd iawn rhwng darparu'r wybodaeth a'r cyngor iawn yn erbyn yr angen i osgoi cyswllt ag archwilwyr arbenigol gwahanol. Byddwn hefyd yn cydweithio gyda chyrrff rheoleiddio eraill i wneud yn siŵr, lle bo hynny'n ymarferol, nad fydd ein rhaglenni archwilio

yn creu baich diangen i fusnesau. Bydd hyn yn cynnwys datblygu protocolau rhannu gwybodaeth ac archwiliadau lle mae modd cyrraedd y deilliannau rheoleiddio ar y cyd trwy gyd-gordio ymweliadau archwilio.

### 3.5 | Adolygu Prosesau Gofyn am Wybodaeth

Cadw ceisiadau am wybodaeth i'r lleiafswm - Byddwn yn ceisio gofalu nad ydym yn gofyn i fusnesau am wybodaeth onid yw'n hollol hanfodol i wirio cydymffurfio a deddfwriaeth allweddol a byddwn yn datblygu systemau gwybodaeth i geisio osgoi sefyllfaoedd lle byddwn yn gofyn am yr un wybodaeth fwy nac unwaith.

Cynnig dewis o ran y modd y gall busnesau roi gwybodaeth – Lle mae'n rhaid darparu gwybodaeth, byddwn yn ceisio gofalu bod y systemau a'r prosesau o ran darparu'r cyfryw wybodaeth yn glir, syml a hygyrch. Yn benodol, byddwn yn datblygu cymwysiadau gwe priodol fel bod modd cyflwyno yn electronig, ac yn cynnig dewis o lwybrau mynediad ar sail dadansoddiad o ddisgwyliadau busnesau.

Diogelu Data - Byddwn hefyd yn ceisio gofalu bod unrhyw wybodaeth neu ddata sydd gennym yn gywir, yn cael ei lanhau yn rheolaidd, ac yn cael ei storio yn ddiogel.

Defnyddio Gorfodaeth sydd wedi ei Dargedu ac yn deillio o Wybodaeth - Yr ydym yn cydnabod mai busnesau cyfreithlon yw mwyafrif y busnesau y deugn i gysylltiad â hwy, sydd eisiau ymwneud yn gadarnhaol a rheoleiddwyr. Yr ydym wedi disgrifio ein hagwedd at atal trwy roi cyngor, gwybodaeth a chanllawiau i'r grŵp hwn o fusnesau. Fodd bynnag, yr ydym hefyd yn cydnabod, fel y gwna mwyafrif llethol y gymuned fusnes, nad oes lle i'r sawl sydd am weithredu y tu allan i'r fframwaith reoleiddio.

#### **Felly, bydd ein hagwedd yn wahanol o ran unigolion neu fusnesau sy'n gwneud y canlynol:**

- ▶ gweithredu yn dwyllodrus neu yn annheg; a/neu
- ▶ yn gyson yn defnyddio arferion masnachu annheg ac yn methu a dilyn cyngor; a/neu
- ▶ peryglu iechyd, diogelwch a lles staff, cwsmeriaid a defnyddwyr; a/neu
- ▶ methu yn gyson a dilyn cyngor am ofynion cyfreithiol ar waethaf cryn ymdrechion gan y rheoleiddwyr i sicrhau cydymffurfio; a/neu
- ▶ ceisio cael mantais fasnachu annheg dros fusnesau cyfreithlon trwy arferion masnachu twyllodrus neu annheg.

Caiff yr agwedd hon at gamau gorfodi ffurfiol ei hystyried yn unig wedi i bob ymgais resymol arall at gydymffurfio fethu, ac eithrio lle bo angen gweithredu rhag blaen i atal neu ymateb i dor-rheolau difrifol, perygl mawr i iechyd neu lle mynna'r amgylchiadau y byddai gweithredu felly ynddo'i hun yn peryglu'r camau gorfodi arfaethedig.



**Felly, byddwn yn bodloni ein hunain ein bod wedi ymdrechu'n deg i gyflawni'r canlynol:**

- ▶ cael cydymffurfio gan gynnwys: defnyddio cymhellion cadarnhaol i gael gwelliant dan amgylchiadau priodol;
- ▶ newid ymddygiad y troseddwr;
- ▶ dileu unrhyw elw neu fudd ariannol o ddiffyg cydymffurfio
- ▶ ystyried y math o drosedd, natur y troseddwr, a gofalu bod y camau a ystyrir yn briodol ac yn gymesur;
- ▶ lliniaru'r niwed neu'r difrod a achoswyd gan yr ymddygiad troseddol; ac
- ▶ atal diffyg cydymffurfio yn y dyfodol;
- ▶ a bod yr holl ymdrechion hynny wedi methu ac nad oes dewis ond cymryd camau gorfodi ffurfiol.

Byddwn yn gofalu bod ein holl swyddogion yn llawn ymwybodol o'r polisiâu a'r egwyddorion sydd yn y ddogfen hon, ac yn cadw atynt, trwy raglen o ddysgu a datblygu, a phrosesau adolygu rheolwyr. Ein nod yw sicrhau bod y polisi'n cael ei gymhwyso yn deg a chyson ar draws pob maes gwasanaeth fel ein bod yn cyrraedd lefelau uchel o gydymffurfio heb fod yn rhy lawdrwm gyda gorfodaeth.

## 4.0 | Beth sy'n digwydd pan nad oes cydymffurfio ar waethaf atal a chynghori?

---

### 4.1 | Penderfyniad i gymryd camau gorfodi ffurfiol

Pan fo rhoi cyngor yn methu a sicrhau lefel ddigonol o gydymffurfio, camau gorfodi ffurfiol fydd y cam nesaf. Lle'r ystyrir camau gorfodi ffurfiol (Cam 3 isod) byddwn yn wastad yn ceisio esbonio'r rhesymau dros y gweithredu arfaethedig. Cymerir penderfyniad i gymryd camau gorfodi ffurfiol yn unig pan fo pob ymdrech resymol i sicrhau cydymffurfio wedi methu, ac eithrio lle bo'r diffyg cydymffurfio yn ddifrifol iawn a bod gweithredu ar unwaith yn angenrheidiol a phriodol. Bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei gyfleu yn amserol ac effeithiol.

### 4.2 | Lefelau Camau Gorfodi

Lle cafwyd tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio a deddfwriaeth, dyma'r drefn a ystyrir:

#### Cam 1 | Hybu

Fel rhan o'n rhaglen gyson o roi cyngor, gwybodaeth a chymorth byddwn yn ceisio perswadio trwy drafod i fabwysiadu arferion da a pheri bod busnesau yn deall y ddeddfwriaeth yn well er mwyn cael gwell lefelau o gydymffurfio. Bydd hyn yn golygu'r ystod eang o weithgareddau a ddisgrifir yn y ddogfen hon, a chyswllt uniongyrchol gyda busnesau a chymdeithasau masnach.

#### Cam 2 | Rhybuddion Anffurfiol

Caiff y rhain eu defnyddio lle mae tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio ond nad yw natur y diffyg cydymffurfio yn teilyngu gweithredu ffurfiol. Er enghraifft, gall hyn fod yn fater technegol yn deillio o ddiffyg dealltwriaeth neu gamddehongli'r cyngor, gwybodaeth neu ganllawiau a roddwyd. Caiff natur y diffyg cydymffurfio ynghyd a'r camau angenrheidiol i unioni'r cam ei esbonio yn llafar a'i gadarnhau yn ysgrifenedig ynghyd a therfyn amser i gymryd y camau unioni. Caiff y busnes gyfle i gael y penderfyniadau hyn wedi eu hadolygu gan uwch-reolwr os cred nad oedd y rhybudd yn briodol neu nad oedd cyfiawnhad drosto.

#### Cam 3 | Camau Gorfodi Ffurfiol

Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi rhybuddion statudol, ymrwymadau ysgrifenedig a gorchmynion gorfodi; gwrthod rhoi trwydded neu gofrestrriad, neu ei dynnu'n ôl; cyhoeddi rhybuddion, rhybuddion cosb benodol, rhybuddion cosb am anhrefn a/neu erlyn. Cymerir y camau hyn yn unol â gweithdrefnau cyfreithiol statudol, codau ymarfer perthnasol ac unrhyw ganllawiau proffesiynol cenedlaethol, e.e., y Cod Ymarfer i Erlynwyr y Goron i enwi dim ond un. Hefyd, lle mae aelodau'r cyhoedd angen eu hamddiffyn rhag ymddygiad sydd yn debygol o beri aflonyddwch, dychryn neu loes, gall y Cyngor geisio Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol naill ai fel cam annibynnol neu yn dilyn euogfarn.

Lle'r ystyrir camau gorfodi ffurfiol (Cam 3) byddwn yn cymhwyso dau brawf: y Prawf Tystiolaeth a Phrawf Budd y Cyhoedd. I'r Prawf Tystiolaeth, byddwn yn bodloni ein hunain fod digon o dystiolaeth i roi 'gobaith realistig o euogfarn' yn erbyn y diffynnydd ar bob cyhuddiad. Prawf gwrthrychol yw hwn sy'n golygu y byddai rheithgor neu fainc ynadon, o'u cyfarwyddo yn gywir yn unol â'r gyfraith, yn fwy na thebyg o gael y diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig. Ystyrir Prawf Budd y Cyhoedd ym mhob achos lle bo digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn. Byddwn yn cydbwysu ffactorau o blaid ac yn erbyn erlyn yn ofalus a theg. Mae ffactorau budd y cyhoedd fel arfer yn dibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd neu amgylchiadau'r sawl a amheuir.

### **4.3 | Rhybuddion (Cyfreithiol) Statudol**

Mae llawer darn o ddeddfwriaeth a orfodir gan y Cyngor yn gwneud darpariaeth am gyflwyno rhybuddion statudol. Mae'r rhybuddion hyn yn mynnu bod unigolyn, busnes neu sefydliad yn cydymffurfio a gofynion cyfreithiol penodol. Lle cyflwynir rhybudd ffurfiol, caiff y dull o apelio yn erbyn y rhybudd (h.y., os teimla'r sawl a'i derbyniodd nad oes cyfiawnhad iddo neu fod y gofynion yn ormodol) ei ddarparu yn ysgrifenedig ar yr un pryd. Bydd y rhybudd yn esbonio beth sydd o'i le, beth sydd ei angen i unioni pethau ac yn amlinellu canlyniadau methu a chydymffurfio a'r rhybudd.

Yn gyffredinol, bydd methu a chydymffurfio a rhybudd statudol wedi ei ysgrifennu a'i gyflwyno yn gywir yn golygu y bydd y sawl a'i derbynna yn agored i'w erlyn. Weithiau, fe all y Cyngor wneud gwaith i gydymffurfio a'r rhybudd ac adennill cost gwneud hynny oddi wrth y sawl sy'n derbyn y rhybudd, ac fe fydd yn gwneud hyn. Dan rai amgylchiadau, gall erlyn a chyflwyno rhybudd fod yn briodol.

### **4.4 | Ymrwymadau Ysgrifenedig a Gorchmynion Gorfodi**

Lle bo unigolyn neu sefydliad yn gyson yn methu a chydymffurfio a'r gyfraith, gall y Cyngor geisio ymrwymiad ysgrifenedig gan yr unigolyn y bydd yn rhoi'r gorau i'r weithred y cwynwyd amdani. Dan amgylchiadau o'r fath, gall y Cyngor bennu na chymerir unrhyw gamau ffurfiol pellach.

Mewn achosion lle bu unigolyn neu sefydliad wedi torri ymrwymiad ysgrifenedig i roi'r gorau i'r weithred y cwynwyd amdani, neu wedi gwrthod ei roi, gellir gwneud cais i'r llys am orchymyn gorfodi, neu gam ffurfio, arall yn unol â'r darpariaethau cyfreithiol perthnasol.

### **4.5 | Hysbysiadau Cosb Benodol**

Mae modd defnyddio rhybudd cosb benodol fel dull o drin y drosedd trwy ddull ar wahân i erlyn. Cyfle yw hyn i'r troseddwr osgoi euogfarn a thalu cosb ariannol yn lle hynny. Nid yw peidio â thalu cosb benodol yn gyffredinol yn drosedd yn ei hawl ei hun, ac os na fydd y sawl gafodd y gosb yn talu'r swm, bydd angen erlyn am y drosedd ei hun.

**Bydd y Cyngor yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau perthnasol am ddefnyddio rhybuddion cosb benodol. Yn benodol, rhaid bodloni'r amodau isod:**

- ▶ (a) rhaid bod tystiolaeth ddigonol i roi gobaith realistig o euogfarn;
- ▶ (b) nad yw'r drosedd yn rhy ddifrifol ac o natur y gellir ymdrin â hi trwy rybudd cosb

## 4.6 | Rhybuddion Syml

Dan rai amgylchiadau, gall rhybudd fod yn ddewis addas yn lle erlyn. Ystyrir y dewis hwn cyn erlyn. Mae rhybudd yn fater difrifol. Fe'i cofnodir ar Gofrestr Ganolog Euogfarnau a gellir ei ddefnyddio i ddylanwadu ar unrhyw benderfyniad i gychwyn camau cyfreithiol pe digwydd i'r unigolyn droseddu eto. Gellir cyfeirio ato mewn unrhyw gamau mewn llys wedi hynny. Ni chyfeirir ato parthed unrhyw euogfarn a gofnodwyd fwy na thair blynedd ynghynt.

**Mae i rybuddion y dibenion isod:**

- ▶ (a) ymdrin yn gyflym a syml a throeddwy'r llai difrifol;
- ▶ (b) osgoi ymddangosiad diangen yn y llysoedd troseddol;
- ▶ (c) ei gwneud yn llai tebygol y bydd troseddwy'r yn ail-droseddu.

**Byddwn yn cydymffurfio a chanllawiau'r Swyddfa Gartref ar rybuddio troseddwy'r o oedolion ac yn benodol cyn rhoi rhybudd, rhaid bodloni'r amodau isod:**

- ▶ (a) rhaid bod tystiolaeth ddigonol o euogrwydd i roi gobaith realistig o euogfarn;
- ▶ (b) rhaid i'r sawl a amheuir o drosedd gyfaddef y drosedd, fel arfer trwy lofnodi datganiad ;
- ▶ (c) rhaid i'r sawl a amheuir o drosedd ddeall arwyddocâd rhybudd a rhoi cydsyniad deallus i'r rhybudd.

## 4.7 | Erlyn

Bydd y Cyngor yn defnyddio eu doethineb o ran penderfynu erlyn ai peidio. Lle bo'r amgylchiadau yn cyfiawnhau hynny, gellir erlyn heb roi rhybudd ymlaen llaw.

**Bydd y Cyngor yn ystyried erlyn lle:**

- ▶ fod hynny'n briodol dan yr amgylchiadau, fel modd o dynnu sylw at yr angen am gydymffurfio gyda'r gyfraith, yn enwedig lle byddid yn disgwyl erlyn fel rheol, neu lle,
- ▶ trwy euogfarnu troseddwy'r, yr atelir eraill rhag troseddu; neu
- ▶ bod posibilrwydd i niwed sylweddol ddeillio o dorri'r rheolau; neu
- ▶ fod difrifoldeb y drosedd, o'i chymryd ynghyd a record ac agwedd gyffredinol y troseddwr, yn cyfiawnhau hynny.

Bydd y penderfyniad i erlyn yn wastad yn ystyried y meini prawf a osodir yng 'Nghod Erlynwyr y Goron'.

Cyn penderfynu erlyn, rhaid bod digon o dystiolaeth am obaith realistig o euogfarn, gan gadw mewn cof unrhyw amddiffyniad fydd ar gael, a rhaid iddo fod er budd y cyhoedd.

**Bydd y meini prawf canlynol o ran budd y cyhoedd yn cael eu hystyried fel arfer wrth benderfynu ar berthnasedd camau cyfreithiol, er nad yw'r rhestr isod yn cynnwys popeth:**

- ▶ Cyffredinolrwydd y math o drosedd
- ▶ Yr angen am ataliad addas
- ▶ Perygl neu anaf i'r cyhoedd
- ▶ Methu cydymffurfio a rhybudd statudol neu ymateb i gyngor am ofynion cyfreithiol
- ▶ Anwybyddu gofynion cyfreithiol er budd ariannol
- ▶ Colled ariannol sylweddol, posibl neu wirioneddol, i drydydd parti
- ▶ Hanes o droseddau tebyg
- ▶ Torri deddfwriaeth yn gyson
- ▶ Lle bo twyll, esgeulustra garw neu wybodaeth euog yn ffactor
- ▶ Man achosion o dorri nifer o statudau

Lle bo modd, dywedir wrth y troseddwr cyn gynted ag y ceir tystiolaeth ddigonol y bydd erlyniad yn digwydd. Bydd pob erlyniad yn cael ei ddwyn heb oedi diangen.

Nod y Cyngor yw bod mor effeithiol ag sydd modd trwy weithio gydag awdurdodau ac asiantaethau eraill lle bynnag y bo hynny'n briodol, gan rannu gwybodaeth lle bo'n gyfreithiol gwneud hynny a gweithredu ar y cyd lle byddai hynny o les.

**Ymysg y cyrff allanol yr ydym yn gweithio gyda hwy mae:**

- ▶ Yr Heddlu,
- ▶ Asiantaeth yr Amgylchedd
- ▶ Y Gweithgor Iechyd a Diogelwch
- ▶ Asiantaeth Safonau Bwyd
- ▶ Comisiwn Hapchwarae
- ▶ Asiantaeth Cerbydau a Gwasanaethau Cwmnïau -VOSA
- ▶ Y Gwasanaeth Tan
- ▶ Cyllid a Thollau EM
- ▶ Defra/Gwasanaeth Milfeddygol y Wladwriaeth
- ▶ Swyddfa Masnachu Teg
- ▶ Asiantaeth Adennill Asedau
- ▶ Canghennau gorfodi mudiadau gwarchod masnach megis y Ffederasiwn yn Erbyn Dwyn Hawlfraint

Lle torrwyd y gyfraith a bod hynny wedi arwain at farwolaeth gysylltiedig â gwaith, bydd yr awdurdod gorfodi yn cysylltu â'r Heddlu, y Crwner a Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG) ac os oes tystiolaeth o ddynladdiad (gan gynnwys dynladdiad corfforaethol) bydd yn pasio'r achos i'r Heddlu neu, lle bo hynny'n briodol, GEG.

## **4.8 | Enillion Trosedd**

Mewn achosion priodol, gellir gwneud cais dan Ddeddf Enillion Trosedd am atafaelu asedau i adennill y budd ariannol a gafodd y troseddwr o'i ymddygiad troseddol. Cymerir camau yn unol â'r safon prawf sifil a gwneir ceisiadau wedi cael euogfarn ond cyn dedfrydu'r troseddwr.

## **4.9 | Casglu Tystiolaeth**

Mae gan gyrff rheoleiddiol y grym i gasglu tystiolaeth trwy amryfal ffyrdd, gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, yn gudd (heb i'r unigolyn/ion a dargedir fod yn ymwybodol fod rhywun yn gwylio). Efallai y defnyddir TCC o bell a dulliau recordio eraill. Ym mhob achos, ceisir yr awdurdod priodol cyn gwylio yn gudd yn unol â Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

## **4.10 | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Mae materion cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi eu hystyried wrth lunio'r polisi hwn. Y mae'n adlewyrchu gwerthoedd y Cyngor, ac y mae'n unol a deddfwriaeth gwrth-gamwahaniaethu. Fe'i cymhwysir yn unol ag oblygiadau cyfreithiol y Cyngor heb ystyried anabled, rhyw, hil, crefydd, oed, tueddiad rhywiol a statws cyfreithiol nac unrhyw seiliau eraill a fyddai'n gamwahaniaethu annheg neu afresymol.

Ni fydd y polisi'n cael unrhyw effaith andwyol ar grwpiau lleiafrifol a chaiff y cyfryw grwpiau yr un lefel o warchodaeth rhag trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ymdrinnir yn briodol a throseddau sydd wedi eu hanelu'n benodol at grwpiau lleiafrifol.

Bydd y Cyngor yn adolygu ein polisïau a'n harferion yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn parhau'n ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn grwpiau lleiafrifol.

## 5.0 | Egwyddorion Cyffredinol Ymddygiad Swyddogion

---

Yn ychwanegol at yr egwyddorion sydd yn y Polisi hwn, bydd swyddogion o hyd yn cyflwyno eu hunain yn broffesiynol ac yn gwrtais. Fel y mae amgylchiadau yn caniatáu, bydd swyddogion o hyd yn datgan pwy ydynt a sut y maent yn gweithredu wrth rywun mewn awdurdod yn y busnes. Fodd bynnag, fe all achlysuron godi lle bydd swyddogion, a hynny yn gyfreithlon, yn oedi cyn dweud pwy ydynt tan yn nes ymlaen mewn ymchwiliad, yn enwedig lle maent yn gwneud gwaith swyddogol dan gél. Bydd swyddogion yn cario cardiau adnabod neu awdurdodi ac yn eu dangos fel sy'n briodol.

Bydd swyddogion yn ymwneud ag unigolion a grwpiau yn deg, yn adeiladol ac yn effeithiol heb ragfarn.

Mae modd darparu dogfennau ar fformatiau eraill megis tap sain, print bras neu CD.

## 6.0 | Bod ag Atebolrwydd Clir am ein Penderfyniadau a'n Gweithredoedd

---

Mae gan y Cyngor gynllun clir i ddirprwyo awdurdod o ran gwasanaethau rheoleiddio a pholisi gorfodi. Mae Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd fel arfer yn cael eu harwain gan swyddog ar lefel Cyfarwyddwr Cynorthwyol a ddynodir fel rheol yn Bennaeth Diogelu'r Cyhoedd.

Mae Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd yn rhoi cyngor proffesiynol a chefnogaeth i aelodau etholedig, a hefyd yn arwain a rheoli'r gwasanaeth. Mae deilliannau rheoleiddio fel arfer yn cael eu diffinio y tu mewn i fframwaith Strategaeth/Cynllun Gwasanaeth sydd hefyd yn amlinellu'r blaenoriaethau gweithredol a'r gweithgareddau am y 12 mis nesaf.

Mae strategaethau gwasanaeth fel arfer yn cael eu cyhoeddi, a'u sail fel arfer yw anghenion a disgwyliadau grwpiau allweddol o gleientiaid: defnyddwyr a busnesau. Mae anghenion a disgwyliadau yn cael eu nodi fel arfer yn dilyn ymgynghori ffurfiol gyda'r grwpiau cleient hyn ac fe'u hadlewyrchir mewn cynlluniau gwasanaeth. Mae gwaith rheolaidd a systemaidd yn cael ei wneud trwy'r flwyddyn i asesu lefelau boddhad a thargeddu gwelliannau lle nad yw'r lefelau boddhad yn ddigonol.

**Hefyd, mae Cynlluniau Gwasanaeth fel arfer yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y canlynol:**

- ▶ Safonau gwasanaeth, e.e., amseroedd ymateb, oriau agor, etc
- ▶ Deilliannau rheoleiddio
- ▶ Blaenoriaethau'r gwasanaeth, prosiectau a gweithgareddau gorfodi



## 7.0 | Trefn Gwynion

---

Mae gan y Cyngor drefn gwynion ffurfiol os digwydd i fusnesau neu drigolion fod eisiau cwyno am ansawdd y gwasanaeth a gawsant. Lle nad oes modd datrys y gwyn yn foddhaol, trwy Weithdrefn Gwyno'r Cyngor, gall yr achwynwr fel arfer gwyno ymhellach at yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol.

## 8.0 | Ymateb a Sylwadau

---

Yr ydym yn croesawu ymateb ar y polisi hwn neu unrhyw rai o'n polisïau - cyfeiriwch unrhyw ymateb neu sylwadau am y Polisi Gorfodaeth hwn at:

**Dr Paul McGreary**

**Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd/Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd**

Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd

Cyngor Sir y Flint

Neuadd y Sir

Yr Wyddgrug

CH7 6NF

Ffôn: 01352 703413